| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| PWYLLGOR : | PWYLLGOR ARCHWILIO |
| DYDDIAD : | 26 MAI 2011 |
| TEITL YR ADRODDIAD : | ADRODDIAD CYNNYDD AR ARCHWILIO MEWNOL 01 EBRILL 2011 – 30 EBRILL 2011 |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | ER GWYBODAETH |
| ADRODDIAD GAN : | RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON |
| GWEITHREDU: | DIM |

## 1. RHAGARWEINIAD

1.1 Yn yr adroddiad hwn, crynhoir gwaith yr Adain Archwilio Mewnol hyd at 30 Ebrill 2011 a hefyd mae ynddo grynodeb o bob un o'r adroddiadau terfynol y rhoddwyd iddynt farn 'Sicrwydd Coch' ynghyd â Chrynodebau Gweithredol o'r adroddiadau.

1.2 Yn achos pob adroddiad terfynol y rhoddwyd iddo farn 'Sicrwydd Coch', paratoir Arolwg Dilyn-i-fyny ac yn hwnnw nodir beth yw barn yr Adain Archwilio ar gynnydd y rheolwyr yn y broses o weithredu ar argymhellion yn y categori Uchel a Chanolig yn codi o'r Adroddiad Terfynol gwreiddiol. Cyflwynir canlyniadau'r arolwg Dilyn-i-fyny i'r Pwyllgor Archwilio nesaf.

1.3 Mae'r Uned Archwilio Mewnol yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar risg lle bynnag y mae hynny'n bosib, ond gall ddefnyddio arolygon system, arolygon rheolaethau allweddol, arolygon sefydliad neu arolygon ymgynghorol os yw'r dulliau hyn yn fwy priodol.

1.4 Mae'r adroddiadau terfynol unigol ar gael i aelodau'r Pwyllgor hwn, ar sail gyfrinachol, ar gais i'r Pennaeth Gwasanaeth – Archwilio.

## 2. Y GWAITH A WNAED HYD YMA

2.1 Cytunwyd ar Gynllun Gweithredol 2011-12 yn y Pwyllgor Archwilio a gafwyd ar 24 Mawrth 2011. Paratowyd y Cynllun mewn ymgynghoriad gyda'r Archwiliwr Allanol, gyda'r Swyddog Adran 151 a thrwy gyfarfodydd a gohebiaeth gyda'r Penaethiaid Gwasanaeth.

2.2 Mae Tabl 1 isod yn dangos statws yr adolygiadau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd ac/neu sydd wedi eu cwblhau hyd at adroddiad terfynol yn y cyfnod hwn ynghyd â'r farn archwilio gyffredinol.

Tabl 1

| Teitl yr Adolygiad | Maes Gwasanaeth | Blwyddyn y Cynllun AM | Statws | Barn CAG |
|---|---|---|---|---|
| ***Adolygiadau sy'n seiliedig ar risg/ Adolygiadau System*** | | | | |
| Budd-daliadau Tai | Cyllid | 2010/11 | TERFYNOL | GWYRDD / AMBR |
| Rheoli'r Trysorlys | Cyllid | 2010/11 | TERFYNOL | GWYRDD |
| Rhyngwynebau Ariannol | Cyllid | 2010/11 | DRAFFT | |
| Lwfansau Aelodau | Polisi | 2010/11 | DRAFFT | |
| Cardiau Pwrcasu Corfforaethol | Cyllid | 2010/11 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Adolygiad Thematig o'r Ysgolion | Addysg | 2010/11 | DRAFFT | |
| Ailgylchu | Priffyrdd | 2010/11 | DRAFFT | |
| Cynnal | Addysg | 2010/11 | DRAFFT | |
| Polisi Rheoli Fflyd | Priffyrdd | 2010/11 | DRAFFT | |
| Trefniant Llafur Uniongyrchol – Credydwyr | Tai | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Diogelu | Corfforaethol | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Pwrcasu - Yn cynnwys E-Dendro | Corfforaethol | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Rheoli Asbestos | Tai / Eiddo | 2011/12 | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| ***Ysgolion*** | | | | |
| Ysgol Llanfairpwll | Addysg | 2010/11 | DRAFFT | |
| ***Ymchwiliadau*** | | | | |
| Cofnodi oriau a weithiwyd yn anghywir | D/B | D/B | Gwaith yn mynd rhagddo | |
| Treuliau Llety a Chynhaliaeth | D/B | D/B | Interim | |

## 2.3 CRYNODEB O'R ADRODDIADAU ARCHWILIO A GYNLLUNIWYD AC A GYHOEDDWYD YN Y CYFNOD HWN

Ers y Pwyllgor Archwilio diwethaf, rydym wedi cyhoeddi 2 o adroddiadau terfynol o Gynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2010-11 ond dim o'r Cynllun 2011-12. Hyd yma mae 2 o adroddiadau terfynol wedi eu cyhoeddi yn 2011/12.

Mae crynodeb o'r graddfeydd a roddwyd ar gyfer yr adroddiadau terfynol a gyhoeddwyd i'w weld yn y tabl isod. Yn y cyfnod hwn, ni chyhoeddwyd unrhyw adroddiadau terfynol a oedd yn cynnwys barn sicrwydd negyddol. Mae crynodeb o'r graddfeydd fel a ganlyn:

| Barn / Graddfa CAGG | Beth yw ystyr y raddfa newydd | Ers y Pwyllgor Archwilio Diwethaf | Ebrill 2010 hyd at Ebrill 2011 |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd (Graddfa A&B) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd sylweddol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. | 1 | 1 |
| Gwyrdd Oren (Graddfa C) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd sicrwydd rhesymol bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Fodd bynnag, rydym wedi canfod rhai pethau fydd, oni chânt sylw, yn ychwanegu at y tebygrwydd y bydd y risg yn troi'n ddigwyddiad. | 1 | 1 |
| Coch Oren (Graddfa D) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, gall yr Awdurdod gymryd rhywfaint o sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas, yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol. Angen cymryd camau i reoli'r risg. | 0 | 0 |
| Coch (Graddfa E) | Ar ôl ystyried y materion a nodwyd, ni all yr Awdurdod gymryd sicrwydd bod y rheolaethau y mae'r Cyngor yn dibynnu arnynt i reoli'r risg hon wedi'u dylunio'n addas nac yn cael eu defnyddio'n gyson ac effeithiol.<br><br>Rhaid cymryd camau i reoli'r risg. | 0 | 0 |
| Cynghorol / Ymchwiliad | Arolwg cynghorol wedi'i gynllunio i bwrpas rhoddi cyngor ymarfer da – Dim barn ffurfiol. | 0 | 0 |
| | Cyfanswm | 2 | 2 |

2.4 Materion Staffio – Mae swydd wag yn dal i fod yn y Tîm Archwilio Mewnol am Archwilydd Mewnol. Gwnaed penderfyniad ym mis Tachwedd 2010 i beidio â phenodi hyd oni fydd swyddi mewnol sydd dan fygythiad yn y Cyngor wedi eu nodi a hyd nes y bydd ymgeiswyr mewnol y mae eu swyddi dan fygythiad wedi cael eu hystyried ar gyfer y swydd. Nid yw'r Rheolydd Archwilio yn ymwybodol bod rhestr o swyddi dan fygythiad ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ac mae'r swydd yn parhau i fod yn wag.

Mae'r swydd wag hon yn y Tîm Archwilio Mewnol yn parhau i gael effaith ar allu'r Tîm i gynnal adolygiadau lefel uchel.

2.5 Adroddiadau gyda dim ymateb - Mae'r Pwyllgor eisoes wedi penderfynu y dylid cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor lle na chafwyd ymateb cyn pen 3 mis o gyhoeddi adroddiad drafft neu adroddiad drafft diwygiedig gan yr Adain Archwilio Mewnol. Ni fu unrhyw adroddiadau o'r fath lle na chafwyd ymatebion cyn pen 3 mis yn y cyfnod hwn.

## 3. CYMHARU PERFFORMIAD GWIRIONEDDOL Y GWASANAETH YN ERBYN TARGEDAU BLYNYDDOL AM Y CYFNOD 01/04/11 – 30/04/11

3.1 Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt ac a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Busnes y Gwasanaeth ar gyfer 2011/12. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y targedau hyn hefyd i'r cyfarfodydd perfformio chwarterol ar gyfer cyllid.

| Mesur Perfformiad | Targed 2011/12 | Gwirioneddol wedi ei addasu ar gyfer y cyfnod | Statws Targed |
|---|---|---|---|
| % o'r cynllun archwilio a gwblhawyd yn y flwyddyn hyd at at adroddiad drafft (60 o adolygiadau yn y cynllun – 3 adroddiad drafft a 2 adroddiad terfynol o 2010-11). | 90% | 100% | J |
| Canran y diwrnodiau y codir amdanynt yn y cynllun a ddefnyddiwyd (955) | 100% | 62% | L |
| Lefelau boddhad cyffredinol y cwsmer yn seiliedig ar holiaduron. | 90% | 100% | J |
| % o'r holl argymhellion archwilio mewnol Uchel a Chanolig a weithredwyd | 80% | 67% | L |
| Nifer yr adolygiadau cynlluniedig o Feysydd Risg Corfforaethol a nodwyd. | 9 | 0 | K |
| Cynnal dau sesiwn hyfforddi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio yn y cyfnod | 2 | 0 | K |
| Cwblhau adolygiad o Brosesau Gweithredu Cynlluniau Gwaith Darparwyr Sicrwydd Trydydd Parti Allanol | 1 | 0 | K |
| Cwblhau adolygiad o ran gwirio data mesur perfformiad yn y Cyngor | 1 | 0 | K |
| Gostyngiad yn nifer y dyddiau archwilio y codir amdanynt yn sgil cydweithredu yn y cyfnod | 10 | 0 | K |
| Nifer yr adolygiadau cydweithredol / adolygiadau gan ddefnyddio papurau gweithio cydweithredol a gynhaliwyd yn y cyfnod. | 3 | 0 | K |

3.2 Roedd y targed mewn perthynas â chanran y dyddiau y codir amdanynt yn seiliedig ar gyflenwad llawn o staff Adain Archwilio Mewnol. Mae'r swydd wag yn y gwasanaeth yn golygu bod nifer y dyddiau y codir amdanynt yn is am y cyfnod hyd yma. Roedd y mis

sy’n destun yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys nifer o wyliau banc a gwyliau cyhoeddus.

3.3 Mae’r ganran o argymhellion lefel Uchel a Chanolig a weithredwyd yn is na’r targed. Bydd yr Adain Archwilio Mewnol yn anfon neges at y gwasanaethau i’w hatgoffa am hyn cyn y Pwyllgor Archwilio nesaf a bydd yn adrodd yn ôl i’r Pwyllgor hwnnw.

## 3. GWAITH YMCHWILIO ARBENNIG

4.1 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Adain Archwilio Mewnol yn gorfod gwneud gwaith ar faterion sy'n dod i'r fei yn ystod gwaith archwilio cynlluniedig neu oherwydd materion a ddygir i sylw'r Adain gan Adrannau eraill a gwaith hefyd mae adrannau eraill yn gofyn i'r Adain Archwilio Mewnol ei wneud. Hefyd, mae'n bosib y bydd yr Archwiliwr Allanol yn gofyn iddynt am wybodaeth neu am gymorth i ddarparu gwybodaeth. Yn sgil rhai o'r ymchwiliadau hyn, cyhoeddir adroddiadau archwilio ffurfiol ond weithiau ni chyhoeddir adroddiad o'r fath (e.e. pan fo'r haeriad yn anghywir ac o'r herwydd does dim i gyflwyno adroddiad arno, neu pan nad yw swm a sylwedd y gwaith yn ddigon i gyfiawnhau adroddiad archwilio llawn neu pan fo'r mater wedi cael sylw mewn adroddiad gan yr Archwiliwr Allanol).

4.2 Mae’r ymchwiliad ynglŷn â’r grant adnewyddu fel yr adroddwyd yn yr adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol blaenorol yn parhau i fynd yn ei flaen. Mae’r mater wedi cael ei gyfeirio at yr heddlu i weithredu ymhellach fel y gwelant yn briodol. Mae Archwilio Mewnol, yr Archwilydd Allanol a’r Swyddog Adran 151 yn gweithio i wthio’r mater yn ei flaen i’w ddiwedd.

4.3 Gofynnwyd i’r Adain Archwilio Mewnol hefyd ystyried mater a oedd yn ymwneud â cofnodi oriau a weithiwyd yn anghywir. Mae’r Adain wrthi’n ymweld â’r eiddo dan sylw ac yn cynnal cyfweliadau gyda’r staff perthnasol. Cynhyrchir adroddiad ar ffrwyth y gwaith ymchwil yn y dyfodol.

4.4 Gofynnwyd i’r Adain Archwilio Mewnol edrych ar dreuliau llety a chynhaliaeth mewn perthynas â gwaith sy’n gysylltiedig â theithio tramor.

## 5. TRACIO ARGYMHELLION

5.1 Mae cynnydd y Cyngor wrth weithredu’r argymhellion yn cael ei ddangos yn y Tabl Cynnydd yn Atodiadau A a B. Caiff y tabl hwn ei lunio ar sail y perfformiad sy’n cael ei hunanasesu fel y’i cafwyd gan y gwasanaethau.

5.2 Yn ein barn ni felly ac yn seiliedig ar y data a hunanaseswyd yn y Tablau Cynnydd a’r methodoleg yn Atodiad B, mae’r Cyngor wedi gwneud ‘cynnydd rhesymol’ yn y cyfnod gyda gweithredu ar holl argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o argymhellion (ac eithrio’r rhai nad ydynt eto wedi cyrraedd y dyddiad gweithredu y cytunwyd arno) lle mae’r statws hunanasesu naill ai yn

'gweithredwyd' neu yn 'disodlwyd'. Ar ddiwedd y cyfnod hwn 'roedd 71% o'r holl argymhellion o'r fath yn y categori hwn, a 67% o'r argymhellion lefel Uchel a Chanolig.

5.3 Rydym yn bwriadu diweddaru ein meddalwedd Argymhelliad 4Action a fydd yn hwyluso'r gwaith o ddiweddaru argymhellion ac yn caniatau cyfleusterau ysgrifennu adroddiadau. Fel rhan o'r broses hon, byddwn yn chwynnu'r data cyfredol ynghylch argymhellion i dynnu allan y rhai hynaf oherwydd bod argymhellion, o'u natur, yn dyddio wrth i amser fynd yn ei flaen ac wrth i systemau ddatblygu.

5.4 Y bwriad yw i'r Uned Archwilio Mewnol yn flynyddol ddewis sampl o argymhellion hunanasesu a weithredwyd o'r holl wasanaethau a phenderfynu a ellir cefnogi'r statws hunanasesu. Byddwn yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r adolygiad hwn yn y Pwyllgor Archwilio i benderfynu a yw'r broses hunanasesu yn adlewyrchiad o'r statws gweithredu gwirioneddol.

RHEOLWR ARCHWILIO - RSM TENON
26 MAI 2011

Tabl Tracio Argymhellion - yr Holl Argymhellion


ATODIAD A

Pwrpas yr adroddiad: Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi sylwadau'r Rheolwyr i'r Pwyllgor ar y cynnydd wnaed ar argymhellion yr Archwiliad blaenorol a'r camau a gytunwyd.

Sgôp yr adroddiad: Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am yr holl gamau y cyunwyd arnynt a oedd yn codi o waith Archwilio Mewnol ac Allanol. Er mwyn helpu'r Pwyllgor, mae dull graddio cyffredin ar gyfer argymhellion Archwilio Mewnol wedi'i fabwysiadu:-

| | | |
|---|---|---|
| Sylfaenol | Uchel | A |
| Sylweddol | Canolig | B |
| Haeddu Sylw | Isel | C |

Tabl Cynnydd: % Argymhellion a weithredwyd / na weithredwyd fesul Gwasanaeth lle gwnaed mwy na 25 o Argymhellion.



| | Categori A | | Categori B | | Categori C | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithredwyd / Disodlwyd | 1 | 13% | 116 | 68% | 494 | 74% |
| Heb eu gweithredu / yn cael eu gweithredu | 10 | 87% | 48 | 32% | 180 | 26% |

**Tabl Tracio Argymhellion - Argymhellion Categorïau Gweithredu A & B**

| | | |
|---|---|---|
| Gweithredwyd / Disodlwyd | 117 | **67%** |
| Heb eu gweithredu / Yn cael eu gweithredu | 58 | **33%** |

Er mwyn dod i farn ynghylch y perfformiad corfforaethol cyffredinol o ran gweithredu argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol yn seiliedig ar yr hunanasesiad o'r gwasanaethau defnyddiwyd y fformiwla isod:

| Cynnydd o ran gweithredu argymhellion | Y ganran o argymhellion a weithredwyd | Ystyried argymhellion categori Uchel | Ystyried argymhellion categori Canolig | Ystyried argymhellion categori Isel |
|---|---|---|---|---|
| DA | 80% + | Dim argymhellion angen sylw | Mae'r argymhellion arwyddocaol sydd angen sylw yn y broses o gael eu gweithredu. | Mae'r argymhellion ' haeddu sylw' sydd heb eu gweithredu yn y broses o gael eu gweithredu ar hyn o bryd. |
| Rhesymol | 50 – 80% | Mae'r argymhellion sylfaenol sydd ar ôl yn y broses o gael eu gweithredu | Mae'r argymhellion sylweddol sydd ar ôl yn y broses o gael eu gweithredu. | Mae'r argymhellion ' haeddu sylw' sydd heb eu gweithredu yn y broses o gael eu gweithredu ar hyn o bryd. |
| Ychydig | < 50% | Gwnaed cynnydd anfoddhaol | Gwnaed cynnydd anfoddhaol | Gwnaed cynnydd anfoddhaol |

Yn ein barn ni felly, ac yn seiliedig ar y data hunanasesu yn y Tabl Cynnydd yn Atodiad A, mae'r Cyngor wedi gwneud **cynnydd rhesymol** yn y cyfnod werth weithredu argymhellion yr Adain Archwilio Mewnol. Mae hyn yn seiliedig ar y ganran o'r argymhellion (heb gynnwys y rheini sydd heb gyrraedd eu dyddiad gweithredu hyd yma) y mae eu statws wedi ei hunanasesu fel un ai,'gweithredwyd' neu 'disodlwyd', sef 71% o'r holl argymhellion o'r fath.